**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KW/0556/20

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Chwefror 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol (OS) hwn yn dod i rym o fewn 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad y caiff ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017, Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988, yn sail i'r system ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn cyflawni cyrsiau addysg uwch dynodedig.

Bydd y Rheoliadau yn gweithredu polisi Llywodraeth Cymru ar gyllid myfyrwyr ar gyfer flwyddyn academaidd 2020/21. Mae'r Rheoliadau yn darparu'r sail gyfreithiol i Weinidogion Cymru greu grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru. Mae'r offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Fel y nodwyd, bydd y Rheoliadau fel y'u gwneir yn dod i rym cyn bod 21 o ddiwrnodau wedi mynd heibio. Mae hyn oherwydd gwall gweinyddol a oedd yn golygu bod dyddiad dod i rym cynt wedi'i ddefnyddio. Er hynny, dylwn egluro mai'r unig effaith o bwys y bydd hyn yn ei chael yw bydd y Rheoliadau yn dod i rym ynghynt na'r disgwyl. Rwyf wedi ystyried a ddylid dirymu'r Rheoliadau a gwneud a gosod offeryn statudol newydd a fyddai'n cynnwys y dyddiad dod i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rym a fwriadwyd, ac rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes gwerth gwneud hynny. Bydd hyn hefyd yn sicrhau na fydd unrhyw oedi wrth lansio'r broses ymgeisio am gyllid myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, yn enwedig o gofio y gall yr oedi hwnnw effeithio ar fyfyrwyr.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i lunio ac wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn hefyd yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd